

Yn y Rhifyn Hwn:

- Diwrnod Darllen Llyfr!
- Yn ôl i'r Ysgol
- Llyfr y Mis
- Ymweliadau Rhithiol
- Llyfrau Gorau 2020 Hyd Yma
- Darllen yn Well ar gyfer Dementia
- Ffuglen Gymraeg i Ddysgwyr
- #ReclaimHerName
- Defnyddio cyfrifiaduron

DATHLU DIWRNOD CENEDLAETHOL DARLLEN LLYFR!

6 Medi ydi Diwrnod Cenedlaethol Darllen Llyfr!


Beth fyddwch **chi'n** ei ddarllen? Rydyn ni eisiau gwybod!

Anfonwch e-bost atom ni ar

llyfrgell.ddigidol@conwy.gov.uk gyda theitl ac awdur y llyfr y byddwch chi'n ei ddarllen ar 6 Medi. Fe fyddwn ni'n creu wal ddathlu ar Facebook, gyda'r holl lyfrau rydych chi'n eu darllen ar hyn o bryd i nodi un o'n hoff ddiwrnodau ni yn y flwyddyn.


YN ÔL I'R YSGOL

Mae gwyliau'r haf ar ben ac mae llawer o blant yn mynd yn ôl i'r ysgol...




Mae Coronavirus: A Book For Children ar gael i'w lawrlwytho am ddim. Mae'n sôn, yn Saesneg, am y feirws ar lefel y gall plant ei deall yn haws, a gall fod yn ddefnyddiol i addysgu'ch plant am y feirws cyn iddynt fynd yn ôl i'r ysgol!

Mae Coping With Coronavirus, eto yn Saesneg, yn ganllaw ar beidio â chynhyrfu a gofalu am eich iechyd meddwl, a allai fod yn ddefnyddiol i rieni.




Llyfr Y Mis



AR GAEL RWAN

Ymweliadau Rhithiol gan Staff y Llyfrgell i Wyllo a Rhannu!

Teimlo'n gysglyd? Gwylwch sesiwn stori Shannon o "Can't You Sleep, Little Bear?"




Cliciwch yma i wyllo Shannon

LLYFRAU GORAU 2020 HYD YMA

Mae llawer o lyfrau gan awduron newydd a llyfrau dilynol mewn cyfresi poblogaidd wedi cael eu cyhoeddi eleni, sy'n awgrymu y bydd 2020 yn flwyddyn arbennig i lyfrau ffuglen a ffeithiol!


Dyma rai o'n hoff lyfrau ni o 2020 hyd yma:



ymlacio **read**
dysgu **explore**
darllen **learn**



DARLLEN YN WELL: DEMENTIA



Gall ein casgliad Darllen yn Well: Dementia roi cymorth, cefnogaeth a gwybodaeth nid yn unig ar beth yw Dementia, ond hefyd sut beth ydyw i berson sy'n dioddef ohono, a sut y gallwn ni fod yn ystyriol tuag atyn nhw ac yn gymorth iddyn nhw.

Gallwch archebu'r llyfrau yma drwy'r catalog ar-lein, neu drwy ein gwasanaeth ffonio a chasglu.

#RECLAIMHERNAME

Dau ddeg a phump o nofelau eiconig yn cael eu hailargraffu dan enwau'r GWIR awduron. Mae'r ymgyrch Reclaim Her Name yn cynnwys nofelau a gafodd eu hargraffu yn wreiddiol gan ferched a oedd yn defnyddio ffugenwau dynion. Mae'r llyfrau yma bellach ar gael fel e-lyfrau digidol am ddim, gyda chelf newydd sbon ar y cloriau i ddathlu pwy yw'r awdur go iawn.



Mae'r llyfrau'n cynnwys 'Middlemarch' – gwir glasur a gafodd ei gyhoeddi dan y ffugenw George Eliot. Mae enw Mary Ann Evans i'w weld yn glir ar y clawr newydd.

Gallwch bori drwy'r casgliad llawn a lawrlwytho'r llyfrau yma.

PETHAU I GADW LLYGAD AMDANYNT...

- Diwrnod Cenedlaethol Darllen Llyfr – Wal Ddathlu ar Facebook!
- Diwrnod Roald Dahl
- Diwrnod Rhyngwladol y Dot
- Ein newyddlen **NEWYDD** i blant!

CYFRIFIADURON CYHOEDDUS






Rydyn ni bellach yn gallu rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd !!

Edrychwch ar Facebook, Instagram a Twitter i weld pryd y bydd y gwasanaeth hwn ar gael mewn gwahanol lyfrgelloedd.

I sicrhau diogelwch oherwydd y pandemig Coronafeirws, hyn a hyn o le fydd ar gael.

Ffoniwch 01492 576139 i gael mwy o fanylion ac i gadw lle ar y cyfrifiaduron.

LLYFRAU CYMRAEG I DDYSGWYR



Oeddech chi'n gwybod bod gennym ni gasgliad eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol sy'n addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn benodol?

Mae'r gyfres Amdani wedi cael ei chreu'n arbennig ar gyfer dysgwyr Cymraeg, wedi'i hariannu gan Gyngor Llyfrau Cymru. Maen nhw hyd yn oed yn dilyn allwedd i chi allu dewis y lefel Gymraeg sy'n addas i chi!

A1 – Mynediad A2- Sylfaen B1 – Canolradd B2 - Uwch